# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

## RHAN 10

AMRYWIOL

## PENNOD 2

TRESMASWYR: TENANTIAETHAU A THRWYDDEDAU GOBLYGEDIG

### 238 Tenantiaethau a thrwyddedau goblygedig

(1) Mae'r adran hon yn gymwys—

(a) os yw annedd nad yw'n ddarostyngedig i gontract meddiannaeth yn cael ei meddiannu fel cartref gan berson ("T") sy'n dresmaswr mewn perthynas â'r annedd honno, a

(b) os yw T yn gwneud taliadau mewn perthynas â'i feddiannaeth o'r annedd i berson ("P") y byddai ganddo hawl (boed ar ei ben ei hun neu ar y cyd) i ddod ag achos yn erbyn T i'w droi allan fel tresmaswr.

(2) Os yw P yn derbyn taliadau o'r fath gan T—

(a) gan wybod bod T yn dresmaswr mewn perthynas â'r annedd, neu

(b) ar adeg pan ddylai P wybod yn rhesymol bod T yn dresmaswr mewn perthynas â'r annedd,

mae P i'w drin fel pe bai wedi gwneud contract cyfnodol â T yn union ar ôl diwedd y cyfnod perthnasol.

(3) Y cyfnod perthnasol yw'r cyfnod o ddau fis sy'n dechrau â'r diwrnod cyntaf y mae P yn derbyn taliad oddi wrth T fel y crybwyllir yn is-adran (2).

(4) Nid yw is-adran (2) yn gymwys os yw P, cyn diwedd y cyfnod perthnasol, yn dod ag achos yn erbyn T i'w droi allan fel tresmaswr neu'n dangos bwriad i drin T fel tresmaswr mewn ffordd arall.

(5) Mae contract o dan is-adran (2) naill ai'n denantiaeth neu'n drwydded.

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/12/2022.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, PENNOD 2 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 01 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(6) Mae'r denantiaeth neu'r drwydded yn rhoi'r hawl i T feddiannu'r annedd fel cartref o'r diwrnod yn union ar ôl diwrnod olaf y cyfnod perthnasol.

(7) Mae swm y rhent a'r cyfnodau rhentu i'w pennu gan roi sylw i swm ac amlder y taliad neu'r taliadau a wneir gan T ac unrhyw amgylchiadau perthnasol eraill.

(8) Ni chaiff tenantiaeth neu drwydded sy'n rhoi'r hawl i T feddiannu'r annedd fel cartref oddi tani fod yn oblygedig ac eithrio fel y darperir yn yr adran hon; ond nid oes dim yn yr adran hon yn atal P a T rhag gwneud tenantiaeth neu drwydded ffurfiol o'r fath cyn diwedd y cyfnod perthnasol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 238 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**I2** A. 238 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/12/2022.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, PENNOD 2 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 01 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.